

## Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Amy Evans (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Maelor, a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sydd bellach wedi cael ei symud i'r Inffirmari. Yr ydym yn eu hamgylchynu yn ein gweddïau, gan hyderu eu bod yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd ac y byddant yn cryfhau dros yr wythnosau nesaf hyn. Cyflwynwn eraill hefyd nad ydynt yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Lois Owen (Henllan) a Huw Rosse ar eu dyweddiad, a'r un modd i Eilir Morris (Nantglyn) a Gemma sydd hefyd wedi dyweddio.

## Ieuenctid 15+

Ychydig o ieuenctid sydd wedi ymateb i'r hysbysiad roddwyd yn Llais Bro Aled ddiweddd mis Hydref. Dymunwn wybod a oes eraill â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac i'w paratoi i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol, os mai dyna eu dymuniad. Cysylltwch yn fuan ag Aneurin, Rhodri neu Mair os oes gennych ddiddordeb.

### Help!

Byddai'r arweinwyr yn gwerthfawrogi help unrhyw un sydd dros 18 oed gyda'r Clwb Ieuenctid Cristnogol (CIC) sy'n cyfarfod ar nos Wener (bob pythefnos fel arfer). Cysylltwch â Rhodri (07814 660291) neu Huw (07751 127188) os gwelwch yn dda os gallwch gynnig help yn achlysurol.

## I ddod

- **Adnabod DAWN:** Sesiynau nesaf - Ionawr 22ain, Chwefror 26ain, Mawrth 12fed.
- **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8 - 12 oed) yng Ngholeg y Bala,** Ionawr 25ain-27ain. Pris gwreiddiol yn £60 y plentyn a £30 ar gyfer ail blentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £20 i'r plentyn cyntaf o bob teulu a £10 i'r ail blentyn. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r Coleg **yn y dyddiau nesaf i sicrhau lle.**
- Yn **Oedfa'r Fro** nos Sul, Ionawr 27ain bydd Andrew Sturgess yn siarad am ei waith fel Swyddog Datblygu Banciau Bwyd Gogledd Cymru gyda'r Trussell Trust.
- **Rhaglen Dorcas** - Cyfarfod i ferched Llansannan, Tanyfron a Nantglyn yn Festri Llansannan nos Iau, Ionawr 31ain am 7.30 pryd y bydd Elinor Owen yn cyflwyno'r rhaglen i'r aelodau. Croeso i eglwysi eraill ymuno os yw hynny'n ddymuniad.
- **Penwythnos ieuenctid yng Ngholeg y Bala,** Chwefror 12fed-15fed. Pris arbennig o £70 (yn hytrach na £75) i bawb sy'n archebu a danfon eu ffurflenni archeb i mewn **ERBYN IONAWR 15fed.** Gostyngiad fel ag y nodir gyda'r Penwythnos Cynradd.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng 1af-5ed Ebrill 2013. Cofiwch bod angen archebu lle ar fyrder!

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13<sup>eg</sup> Ionawr 2013

## Darlleniad y Dydd

Genesis 1:1-13

(BCND a'r BCN: tud.1)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Gweddïwn y bydd heddiw yn gychwyn taith i ni fel Bro, taith fydd yn ein tywys trwy'r Beibl hefo'n gilydd. I ffwrdd â ni felly! Bu llawer o gerdded y llwybrau yma o'r blaen, a diolch i Dduw am ein bwydo a'n disychedu mor aml o'i Air ar hyd y blynyddoedd, ond y nod heddiw yw ein bod yn mynd at y Gair gyda'n gilydd o Sul i Sul ac y bydd Llais Bro Aled yn cynnwys rhyw arweiniad byr, pwrpasol ar y rhan a ddewiswyd o'r Beibl i'n helpu ar y daith.

Neithiwr roeddwn yn gwyllo rhaglen David Attenborough am fywyd gwylt Affrica ac ymdrech yr anifeiliaid i oroesi sychder a gwres. Trist iawn oedd gweld yr eliffant bach yn marw ar y ffordd tua'r tir lle roedd dŵr. Methu cyrraedd mewn pryd yn ystod un o'r cyfnodau sychaf ers hanner canrif. Mae hi'n gyfnod sych yn ysbrydol heddiw ac mae angen cynhaliaeth arnom wrth i ni 'deithio tua'r hyfryd wlad'. Rydym mewn angen am y dyfroedd bywiol sydd yn y Gair, angen cyrraedd y manau hynny lle mae Duw yn gallu ein disychedu trwy ei Ysbryd a'i Air. Fel gwerddon mewn anialwch y mae Gair Duw yn llonni'r enaid. Dyma sut y daw Duw atom i'n hadfywio a'n disychedu.

Braf oedd deall fod llawnder wedi dod yn ôl wedi i'r glaw ddychwelyd i'r safanna yn Affrica. Gweddïwn y bydd ffrwyth a llawnder yn dod i ni wrth ddarllen, gwrando – ac yfed – o Air Duw yn y Fro.

Wedi trafod yn ystod yr wythnos, beth am wneud lle i'r cyd-ddarllen yn dilyn y casgliad, pryd bynnag y gwneir hynny yn y gwahanol gapeli? Mae yna doriad naturiol yma ac fe all Llywydd y Sul neu'r pregethwr arwain trwy gyfeirio at Llais Bro Aled a rhif y dudalen o'r Beibl i'r darlleniad. Buan iawn y down i'r arfer gobeithio!

Cyfeiria'r darlleniad cyntaf felly at Dduw yn creu nefoedd a daear. Hanfod y gred sydd gennym yn Nuw fel Creawdwr yw ein bod, mewn ffydd, yn credu i Dduw greu pob peth trwy ei Fab, Iesu, (Ioan 1:3) a'i fod wedi llunio yr hyn sy'n weledig o'r hyn nad yw'n weladwy (Hebreaid 11:3). Y mae'r holl greadigaeth yn rhyfeddol ac yn hardd ac y mae pob peth wedi ei greu er mwyn Crist. Yr Arglwydd Iesu sy'n cynnal y cyfan trwy air ei nerth (Hebreaid 1:3). Wrth ddarllen yr hanes o lyfr Genesis, cofiwch am y geiriau yma hefyd o'r llythyr at y Colosiaid sy'n disgrifio Iesu: "... ynddo ef y crewyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig ... trwyddo ef, ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll." (Colosiaid 1:15-20). Y fath nerth sydd yn yr Arglwydd!

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- lau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Mawr, Dinbych. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00, a Siaradwr Gwadd am 7.00.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- **C.I.C.** (Clwb leuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15 yng nghwmni Gwenno Teifi.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Cefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. Nan Powell Davies yn arwain yr oedfa.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhaghysbys Cyfarfod Blynyddol aelodau Eglwys Unedig Llansannan nos Fawrth, Ionawr 29ain am 7.30.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- lau Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cyfarfod am 7.30 gyda sgwrs gan John Owens ar yr enwau ar gofgolofnau'r plwyf. Croeso i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Cefnogi Eraill

Bydd elw'r Gwasanaeth Carolau a Phlygain oedd yn £150 ac elw'r Swper Adnabod oedd yn £135 yn cael ei gyfrannu i Gronfa Llifogydd Llanfair Talhaiarn. Os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu at y Gronfa, cysylltwch â Mair cyn diwedd y mis, os gwelwch yn dda. Diolch am bob cefnogaeth.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau